Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Trawsnewid y System Cyfiawnder Troseddol

## Strategaeth a Chynllun Gweithredu – Diweddariad ar Weithredu

Gorffennaf 2014

# Trawsnewid y System Cyfiawnder Troseddol

Strategaeth a Chynllun Gweithredu – Diweddariad ar Weithredu

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorffennaf 2014

Cm 8868

OGL

© Hawlfraint y Goron 2014

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 2. I weld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/ neu anfonwch neges e-bost at PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk. Lle'r ydym wedi nodi deunydd â hawlfraint gan drydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn transformingthecjs@justice.gsi.gov.uk

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Strategaeth ar gyfer cyfiawnder troseddol | 5 |
| Gofal ac ystyriaeth o ddioddefwyr a thystion | 10 |
| CJS ddigidol | 14 |
| CJS sy'n gwneud pethau'n gynt ac yn iawn y tro cyntaf | 19 |
| Ymateb yn iawn i droseddau | 22 |
| Cyflawni'r cynllun hwn | 27 |

# Rhagair



Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers i'm Hadran gyhoeddi Strategaeth a Chynllun Gweithredu'r System Cyfiawnder Troseddol (CJS). Yn y cynllun hwnnw, bu i ni amlinellu'r gred syml y dylai pob rhan o'r CJS fod yn cydweithio i gyflawni'r un gyfres o ganlyniadau. Dyna'r sail o hyd ar gyfer trawsnewid y CJS, ac rydym wedi gwneud cynnydd aruthrol mewn blwyddyn.

Ers cyhoeddi'r cynllun y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi cyfarfod â nifer fawr o ddioddefwyr troseddau ac wedi cydweithio'n agos â'r Comisiynydd Dioddefwyr, a benodwyd gennyf i roi llais i ddioddefwyr wrth galon y Llywodraeth. Mae hyn wedi fy helpu i gael golwg newydd ar sut y mae ein hasiantaethau cyfiawnder troseddol yn gwasanaethu aelodau o'r cyhoedd a all fod yn agored iawn i niwed pan fyddant yn dod i gysylltiad â'r CJS. Rwyf wedi clywed llawer am brofiadau dioddefwyr a thystion. Mae'r unigolion hyn, nad oes unrhyw fai arnynt hwy, yn rhoi gwybod am drosedd oherwydd eu bod wedi cael cam ac mae gan gymdeithas ran bwysig i'w chwarae er mwyn gwneud iawn am hynny. Mae cymaint o'r hyn rwyf wedi'i glywed yn dweud wrthyf fod angen i ni wneud mwy i wneud yn siŵr bod eu buddiannau hwy'n cael blaenoriaeth. Os nad oes gan ddioddefwyr a thystion yr hyder i roi gwybod am drosedd a chymryd rhan wedyn yn y broses o gasglu tystiolaeth ac, os oes angen, yn y broses o ddod â throseddwyr o flaen eu gwell, nid oes gennym System Cyfiawnder Troseddol.

Rwy'n falch fod y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, sy'n dod ag arweinwyr yr asiantaethau cyfiawnder troseddol at ei gilydd, wedi nodi tair prif flaenoriaeth er mwyn parhau â'r gwaith trawsnewid a ddechreuwyd gennym y llynedd ac mae'r rhain yn sail i'n cynlluniau diweddaraf ar gyfer y CJS. Y blaenoriaethau hyn yw creu System Cyfiawnder Troseddol:

- sy'n gofalu am ddioddefwyr a thystion ac yn ystyried eu hanghenion;
- sy'n ddigidol; ac
- sy'n gwneud pethau'n gynt ac yn iawn y tro cyntaf.

Mae'r Llywodraeth hon wedi rhoi lle canolog i wella profiad dioddefwyr a thystion wrth galon ei strategaeth ar gyfer y CJS, ac rwy'n rhoi hynny gyntaf yn y cynllun diweddaraf hwn. Mae hyn yn golygu cefnogi dioddefwyr drwy'r broses cyfiawnder troseddol a sicrhau bod dangos parch tuag at ddioddefwyr a thystion a'u trin yn deg yn cael ei weld fel y norm. Rwy'n awyddus i ddigideiddio'r CJS er mwyn i ni allu moderneiddio prosesau – mae hyn yn golygu bod lluoedd yr heddlu'n defnyddio offer digidol a bod llysoedd yn dod yn enghreifftiau gwych o leoliadau sy'n gweithio'n ddigidol. Hoffwn hefyd weld achosion yn cael eu trin ar y lefel briodol ac yn gyflym, yn enwedig mewn llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron lle bydd gwell ffyrdd o weithio'n gwneud y system yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Mae'r tair blaenoriaeth uchod yn hollbwysig er mwyn trawsnewid y CJS, ond byddwn yn cymryd camau eraill hefyd. Byddwn yn gwella'r ffordd y mae'r CJS yn ymdrin â throseddau penodol sydd angen ymateb estynedig. Mae trais rhywiol a throseddau casineb yn difetha'n cymunedau. Mae trais a cham-drin domestig yn difetha bywydau. Mae caethwasiaeth fodern a seiberdroseddu'n dod yn fwyfwy amlwg ac mae'n hollbwysig bod ymateb y CJS yn gydgysylltiedig ac yn llwyddiannus.

Mae'r cynllun hwn a ddiweddarwyd yn nodi sut y byddwn yn cyflwyno camau gweithredu drwy waith partneriaeth effeithiol – ar lefel genedlaethol drwy'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a thrwy bartneriaethau cyfiawnder troseddol lleol – a sut y bydd mwy o dryloywder yn galluogi'r cyhoedd i alw asiantaethau cyfiawnder troseddol i gyfrif.

Ers cyhoeddi cynllun y llynedd, mae perfformiad y CJS wedi bod yn sefydlog, yng nghyd-destun gostyngiad mewn gwariant cyffredinol ar draws y system. Dywedodd rhai y byddai llai o wariant yn effeithio ar ein perfformiad, ond oherwydd gwaith caled a phroffesiynoldeb y rhai sy'n gweithio yn y CJS, nid yw hyn wedi digwydd.

Er gwaetha'r gwariant is rydym wedi gweld gwelliannau. Mae troseddu wedi gostwng i'w lefel isaf er 2002/03 - 7.5 miliwn o droseddau yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn Rhagfyr 2013, sy'n ostyngiad o 15% o'i gymharu ag arolwg y flwyddyn flaenorol – a dyma'r amcangyfrif isaf ers dechrau'r arolwg yn 1981.

Mae arwyddion bod y diwygiadau a nodwyd yn Strategaeth a Chynllun Gweithredu y llynedd yn dechrau cael effaith. Bu cynnydd yng nghyfran yr achosion y deliwyd â hwy mewn llysoedd ynadon ac a gwblhawyd ar eu rhestriad cyntaf o 66% yn chwarter cyntaf 2013 i 69% yn chwarter cyntaf 2014. Rydym hefyd wedi lleihau'r amser cyfartalog o'r adeg y cyflawnir trosedd i'r adeg y cwblheir yr achos yn y llys; yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau pob achos troseddol yn chwarter cyntaf 2014 oedd 158 diwrnod, gostyngiad o'r 161 diwrnod yn yr un cyfnod yn 2013.

Ond nid gwella ystadegau yw unig nod y cynllun gweithredu hwn a ddiweddarwyd – mae'n ymwneud â datblygu a chynnal system cyfiawnder troseddol o safon, sy'n gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, ac sydd o fudd i ddioddefwyr a thystion. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yn cymeradwyo'n llwyr y cynllun gweithredu hwn a ddiweddarwyd ac mae wedi ymrwymo i'w roi ar waith. Rwyf fi, a'r Bwrdd, yn credu y bydd y camau gweithredu sydd yn y cynllun hwn, pan fyddant wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn ac wedi dod yn rhan o'r busnes arferol, yn trawsnewid y system cyfiawnder troseddol i'w gwneud yn system fodern ar gyfer yr 21ain ganrif a fydd o fudd i bawb sy'n dod i gysylltiad â hi.



**Y Gwir Anrhydeddus Chris Grayling AS**

Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

# Strategaeth ar gyfer cyfiawnder troseddol

Ym mis Mehefin 2013 cyhoeddasom *Trawsnewid y System Cyfiawnder Troseddol: Strategaeth a Chynllun Gweithredu i ddiwygio'r System Cyfiawnder Troseddol*.[1] Roedd yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer system cyfiawnder troseddol (CJS) fodern sy'n ymateb yn ddi-oed a phendant i droseddu, sy'n trin dioddefwyr a thystion yn ofalus ac yn ystyriol ac sy'n rhoi gwerth am arian llawer gwell i'r trethdalwr. Rydym wedi gwneud cynnydd da tuag at y weledigaeth hon. Mae gan ddioddefwyr fwy o lais a hawliau cliriach ac ehangach, mae staff y CJS yn gwneud mwy o waith digidol, ac mae'r CJS yn fwy tryloyw nag erioed, gan fod mwy o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd a darlledu'n bosibl mewn rhai llysoedd. Mae'r fersiwn diwygiedig hwn o'r cynllun yn adeiladu ar y llwyddiannau hyn ac yn nodi beth y byddwn yn ei wneud er mwyn cwblhau'r trawsnewidiad hwn.

## Blaenoriaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer 2014/15

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi adeiladu'r sylfeini ar gyfer y gwasanaeth modern y mae'r cyhoedd yn ei haeddu. Y nod nawr yw cwblhau'r gwaith o drawsnewid y CJS. Bydd ein diwygiadau'n rhoi'r dioddefwr yn gyntaf; yn sicrhau bod systemau digidol yn cael eu gweld fel y norm; yn lleihau oedi annerbyniol a'r amser sy'n cael ei dreulio'n prosesu achosion syml; ac yn dod â chymhlethdod diangen a hen arferion sy'n gwanhau ein system i ben.

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ('y Bwrdd'), dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Cyfiawnder Troseddol, yn pennu blaenoriaethau ac yn darparu arweiniad i'r CJS. Mae'r Bwrdd yn cynnwys prif weithredwyr yr asiantaethau cyfiawnder troseddol ac uwch arweinwyr o bob rhan o'r system. Mae gan y Bwrdd dair prif flaenoriaeth yn 2014/15.

**Er mwyn creu system cyfiawnder troseddol sy'n gofalu am ddioddefwyr a thystion ac yn ystyried eu hanghenion byddwn yn:**

- gwneud y Cod Dioddefwyr a'r Siarter Tystion yn rhan o'r busnes arferol i bawb yn y CJS;
- darparu ymateb mwy cydlynol i dioddefwyr a thystion gan bartneriaid y system cyfiawnder troseddol;
- gwella'r gwasanaethau a ddarperir i gefnogi dioddefwyr a thystion;
- cefnogi dioddefwyr a thystion yn y system cyfiawnder troseddol; a
- sicrhau bod dangos parch tuag at ddioddefwyr a thystion yn norm.

[1] *Trawsnewid y CJS: Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mehefin 2013

**Er mwyn creu system cyfiawnder troseddol ddigidol byddwn yn:**

- cynorthwyo heddluoedd i ddod yn ddigidol erbyn 2016;
- cael llysoedd 'digidol diofyn' yn y llysoedd ynadon a Llysoedd y Goron;
- darparu llwyfan cyffredin ar gyfer rheoli gwybodaeth achosion yn ddigidol ar draws y system;
- defnyddio ffeiliau digidol wedi'u moderneiddio yn genedlaethol; a
- chynyddu'r defnydd o fideo ar draws y system cyfiawnder troseddol.

**Er mwyn creu system cyfiawnder troseddol sy'n gwneud pethau'n gynt ac yn iawn y tro cyntaf, byddwn yn:**

- gwneud yn siŵr bod y bobl iawn – yr heddlu, ynadon neu farnwyr – yn ymdrin â'r mathau iawn o achosion a'r troseddwyr iawn;
- trawsnewid cyfiawnder diannod fel bod y broses o gwblhau achosion yn cymryd llai o amser; a
- gwella effeithlonrwydd Llys y Goron er mwyn cael troseddwyr i bledio'n euog yn gynharach a sicrhau bod mwy o achosion yn mynd yn eu blaenau yn unol â'r cynlluniau.

***Meysydd blaenoriaeth eraill***

Mae system cyfiawnder troseddol ddigidol sy'n gofalu am ddioddefwyr a thystion ac yn cyrraedd y canlyniad iawn yn gynt o fudd i bawb sy'n gysylltiedig â'r system. Ond mae'n bwysig hefyd ein bod yn **ymateb yn iawn i droseddau**, ac mae ar rai troseddau blaenoriaeth angen ymateb estynedig. Eleni gwelwyd bod gwir angen lleihau'r gofid y mae dioddefwyr troseddau rhyw yn ei deimlo wrth roi tystiolaeth, a thrwy'r cynllun hwn byddwn yn gweithredu diwygiadau sylfaenol. Byddwn yn cymryd camau trawslywodraeth i fynd i'r afael â thrais domestig. Byddwn yn dal i weithio ar draws y CJS er mwyn gwella'r ffordd rydym yn mynd i'r afael â throseddau casineb. Byddwn yn creu CJS lle mae pob dioddefwr yn cael blaenoriaeth, heb y straen diangen a all gael ei achosi gan y broses o fynd i'r llys, a lle rydym yn ymateb yn gyflym ac yn bendant i'r troseddau diweddaraf sy'n dod i'r amlwg megis caethwasiaeth fodern a seiberdroseddu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd wedi goruchwylio nifer fawr o gamau gweithredu. Mae'r ddogfen hon yn nodi beth rydym wedi'i gyflawni a beth yw blaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn nesaf ac ar ôl hynny. Mae'n darparu cyfres o ymrwymiadau uchelgeisiol, llawer ohonynt yn adeiladu ar ymrwymiadau'r llynedd. Bydd y rhain yn cael eu cyflawni gan asiantaethau CJS unigol, dan oruchwyliaeth y Bwrdd. Drwy ganolbwyntio ar y tair blaenoriaeth hyn, bydd y Bwrdd yn caniatáu i'r CJS gyflawni'r trawsnewidiad ehangach y mae'r cynllun hwn a ddiweddarwyd yn ei ragweld. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r holl gamau gweithredu a fydd yn helpu i drawsnewid y system. Mae hefyd yn cynnwys cyfres ehangach o gamau gweithredu sydd yn hollbwysig megis ymateb i droseddau blaenoriaeth.

## Cyflawni'r cynllun hwn

### *Tryloywder*

Mae mwy o dryloywder yn y system yn helpu'r cyhoedd i ddeall sut y mae'n gweithio, ac yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd alw'r CJS i gyfrif am benderfyniadau a wnaethpwyd. Rydym wedi rhyddhau mwy o wybodaeth nag erioed i'r cyhoedd ynglŷn â pherfformiad y system, ond gellir gwneud mwy i wneud y wybodaeth hon yn gliriach ac yn haws ei deall. Mae agenda tryloywder y Llywodraeth yn hybu mwy o fynediad at ddata fel bod pobl yn gallu defnyddio a rhannu'r data.

Ond mae angen tryloywder mewn meysydd eraill hefyd. Am y tro cyntaf erioed, gall y cyhoedd wylio achosion o'r Llys Apêl ar y teledu. Mae dioddefwyr a thystion erbyn hyn yn gwybod llawer mwy ynglŷn â sut y gallant ddisgwyl cael eu trin pan fyddant yn dod i gysylltiad â'r CJS. Byddwn yn dal i wneud y system yn fwy tryloyw fel bod:

- cyfiawnder yn amlwg gan fod gwybodaeth ar gael yn rhwydd am ganlyniadau cyfiawnder, ac achosion llys yn cael eu darlledu; a
- dioddefwyr troseddau yn gallu cael rhagor o wybodaeth, mewn amser real, am yr ymchwiliad i'w troseddau â chynnydd â'u hachos.

### *Tegwch*

Byddwn yn cefnogi ymdrechion – lleol a chenedlaethol – i sicrhau bod y CJS yn deg ac yn gyfiawn, beth bynnag yw hil, ffydd, hunaniaeth rywiol, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd unigolyn fel bod:

- heddluoedd yn cynnwys gweithluoedd mwy amrywiol sy'n cynrychioli eu cymunedau'n well;
- gwasanaethau cyswllt a dargyfeirio pobl ifanc ac oedolion – sy'n rhoi'r driniaeth iawn cyn gynted ag y bo modd i bobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau – ar gael i droseddwyr;
- y CJS yn meddu ar well dealltwriaeth o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan droseddwyr o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, er mwyn nodi ffyrdd o wella'u hymgysylltiad â'r CJS, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn â phleon euog priodol.

### *Gweithio mewn partneriaeth*

Byddwn yn gweithredu ein diwygiadau drwy weithio mewn partneriaeth. Mae CJS yn dibynnu ar gydbwysedd gofalus rhwng annibyniaeth a chydweithio'n effeithiol. Mae annibyniaeth y farnwriaeth, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a'r heddlu'n ganolog o ran sicrhau bod rheolau cyfraith yn cael eu cadw a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud heb unrhyw ymyriad. Ein huchelgais yw cael system fodern, effeithlon sy'n cefnogi annibyniaeth yn rhai y mae angen iddynt wneud penderfyniadau ar draws y system.

Darperir gwasanaethau'n lleol – yng ngorsafoedd yr heddlu, mewn llysoedd ac mewn cymunedau – ac arweinwyr lleol fydd yn gwneud yn siŵr bod y cynllun hwn yn llwyddo. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i greu'r amgylchiadau y mae ar bartneriaethau CJS eu hangen er mwyn llwyddo. Rydym wedi gwella dulliau cyfathrebu a threfniadau partneriaeth rhwng asiantaethau yn lleol ac yn genedlaethol. Rydym yn awyddus i adeiladu ar hyn drwy roi i bartneriaethau CJS lleol yr offer y mae arnynt eu hangen i fod yn effeithiol. Byddwn yn:

- cynorthwyo partneriaethau i greu darlun o berfformiad lleol, er mwyn eu galluogi i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal cyflawniad effeithiol a chynllunio'n effeithiol; a
- rhoi mwy o lais i arweinwyr lleol wrth ddatblygu polisïau a strategaethau cenedlaethol.

## Y cyd-destun ehangach – adeiladu ar 2013

Rydym yn canolbwyntio ar y cyd-ganlyniadau a nodwyd yn Strategaeth a Chynllun Gweithredu y llynedd:

- lleihau troseddu;
- lleihau aildroseddu;
- cosbi troseddwyr;
- amddiffyn y cyhoedd;
- gwneud iawn â dioddefwyr;
- cynyddu hyder y cyhoedd, gan gynnwys ymhlith dioddefwyr a thystion; a
- sicrhau bod y system yn deg a chyfiawn.

**Troseddu yng Nghymru a Lloegr**

- Mae troseddu'n dal i ostwng: mae'r fersiwn diweddaraf o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) yn amcangyfrif bod 7.5 miliwn o achosion o droseddu yn erbyn aelwydydd ac unigolion yng Nghymru a Lloegr – y lefel isaf ers dechrau'r arolwg yn 1981 a gostyngiad o 15% er 2012, â lleihad sylweddol o safbwynt ystadegol yn y rhan fwyaf o'r categorïau troseddu.[2]
- Mae'r risg o fod yn ddioddefwr trosedd ar ei lefel isaf ers dechrau'r arolwg yn 1981, ac mae'r tebygolrwydd o fod yn ddioddefwr trosedd erbyn hyn yn ddim ond 17%, o'i gymharu â bron i 40% pan oedd yn ei anterth yn 1995.[3]

Mae'r cynllun hwn a ddiweddarwyd yn ategu diwygiadau ehangach a fydd yn newid y ffordd rydym yn gweld cyfiawnder troseddol. Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi cyflwyno dulliau newydd o blismona ac annog cydweithredu ar draws y CJS. Maent wedi dod yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr fel bod modd teilwra gwasanaethau o ddifrif, am y tro cyntaf, ar gyfer anghenion cymunedau lleol.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn gweithredu rhaglen ddiwygio uchelgeisiol fel rhan o weledigaeth a strategaeth hirdymor i wneud llysoedd yn fwy effeithlon ac yn llai costus. Drwy weithio gydag asiantaethau partner, bydd y diwygiadau hyn yn gwella'r perfformiad ymhellach. Drwy ddefnyddio technoleg ac arferion gweithio modern, bydd y rhaglen ddiwygio hon yn creu sefydliad mwy effeithiol ac effeithlon sy'n perfformio'n dda ac yn darparu gwell gwasanaethau i'r cyhoedd, dioddefwyr, tystion a'r rhai sy'n gweithio yn y CJS.

Un o'n prif amcanion yw lleihau aildroseddu. Rydym yn mynd i'r afael â hyn drwy ailwampio gwasanaethau prawf fel bod pob oedolyn sy'n cael ei ryddhau ar drwydded ar

[2] Crime in England and Wales, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ebrill 2014
[3] Crime in England and Wales, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ebrill 2014

ôl dedfryd o garchar yn cael goruchwyliaeth a chymorth i ailsefydlu yn y gymuned am gyfnod o 12 mis o leiaf. Mae Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol cyhoeddus newydd wedi cael ei greu, a bydd yn gweithio er mwyn amddiffyn y cyhoedd ac adeiladu ar yr arbenigedd a'r proffesiynoldeb sy'n bodoli'n barod. Bydd Cwmnïau Ailsefydlu Cymunedol yn darparu cefnogaeth 'drwy gât y carchar' i droseddwyr i'w helpu i setlo yn eu cymunedau a thorri'r cylch aildroseddu.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn gweithredu rhaglen drawsadrannol er mwyn lleihau nifer y dinasyddion tramor yn y Deyrnas Unedig sydd wedi cyflawni trosedd, a'r risg a'r niwed y maent yn eu hachosi tra maent yma. Rydym yn atal y rhai sydd wedi cyflawni troseddau o'r fath neu sy'n debygol o gyflawni troseddau o'r fath rhag dod i'r Deyrnas Unedig; anfon y rhai sydd yn y Deyrnas Unedig ymaith neu hwyluso eu hymadawiad mewn ffordd arall; a rheoli ymddygiad y rhai nad ydynt wedi cael eu hanfon ymaith eto, a'r rhai hynny y mae'n amhosibl eu hanfon ymaith. Bydd Bil Mewnfudo'r Swyddfa Gartref yn cyfrannu tuag at y gwaith hwn drwy foderneiddio'r broses apêl, cynnwys dehongliad llym o Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (hawl i barch at fywyd preifat a theuluol) mewn deddfwriaeth sylfaenol a pheidio â rhoi mechnïaeth i droseddwyr sy'n ddinasyddion tramor pan fyddant yn cael eu hanfon ymaith yn fuan.

# Gofal ac ystyriaeth o ddioddefwyr a thystion

Os ydych yn ddioddefwr neu'n dyst, nid arnoch chi mae'r bai eich bod yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae gennych fudd personol iawn ym mherfformiad y CJS – eisiau gweld y troseddwr yn cael ei ddal a'i gosbi, eisiau sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto – ac efallai y bydd arnoch angen rhywfaint o gymorth ar adeg a all fod yn un bryderus ac emosiynol.

Os ydym am gyflawni'r cyd-ganlyniadau – sydd mor bwysig i ddioddefwyr a thystion – mae angen iddynt chwarae rhan lawn yn y system. Gwyddom fod dioddefwyr a thystion sy'n fodlon â'u cyswllt â'r CJS yn fwy tebygol o fod yn barod i ymgysylltu â hi eto, felly mae'n hanfodol ein bod yn rhoi'r hyder iddynt allu cyfranogi. Roedd gweithredu'r Cod Dioddefwyr a'r Siarter Tystion newydd y llynedd yn adeiladu ar gyfres o ddiwygiadau a ddechreuwyd yn 2012 er mwyn cael y system i ganolbwyntio mwy ar ddioddefwyr. Gall dioddefwyr a thystion wybod i sicrwydd nawr pa gefnogaeth y byddant yn ei chael a pha bryd, gyda phwy y dylent siarad am eu hachos, a beth i'w wneud os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

## Beth rydym wedi'i gyflawni

Rydym wedi gwneud y canlynol:

- **cyhoeddi Cod Dioddefwyr newydd** sy'n rhoi hawliau cliriach gan asiantaethau cyfiawnder troseddol i ddioddefwyr troseddau ac yn teilwra gwasanaethau'n well ar gyfer anghenion unigol er mwyn iddynt gael y gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn;
- **cyhoeddi Siarter Tystion diwygiedig**, sy'n nodi'r safonau gwasanaeth y dylai pob tyst eu derbyn, o'r adeg y rhoddir gwybod am drosedd nes bydd y treial wedi'i gwblhau;
- **gwella'r broses gwynion** ar gyfer dioddefwyr a thystion fel eu bod yn gwybod gyda phwy y dylent gysylltu a beth i'w ddisgwyl os bydd rhywbeth yn mynd o'i le;
- dechrau **treialu croesholiad a gaiff ei recordio cyn treial** i helpu tystion agored i niwed i roi eu tystiolaeth orau bosibl – heb orfod wynebu holl amgylchiadau ystafell y llys. Cynhaliwyd y croesholiad cyntaf yn Lerpwl ar 28 Ebrill 2014;
- agor **13 canolfan gymorth trais rhywiol newydd** er 2010;
- darparu dros £20m o gyllid ymlaen llaw i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu er mwyn paratoi eu hunain a darparwyr gwasanaeth y sector gwirfoddol ar gyfer **trosglwyddo i gomisiynu lleol**;
- creu **Panel Dioddefwyr**, a gyfarfu am y tro cyntaf ar 7 Mai 2014, fel bod Gweinidogion yn cael clywed drostynt eu hunain gan ddioddefwyr beth y gallwn ei wneud yn well i'w helpu i ddod i delerau ag effeithiau trawmatig troseddu a gwella; a
- mabwysiadu system TG **TrackMyCrime**, a ddatblygwyd gan Gwnstabliaeth Avon a Gwlad yr Haf, sy'n galluogi dioddefwyr i weld gwybodaeth am gynnydd eu hachos a chyfnewid negeseuon â'r swyddog ymchwilio. Mae system TrackMyCrime yn cael ei gweithredu gan dri heddlu – Avon a Gwlad yr Haf, De Swydd Efrog a Chaint.

**Astudiaeth achos – TrackMyCrime**

Lansiodd heddlu De Swydd Efrog TrackMyCrime ar 3 Mawrth 2014. Dechreuodd y gwaith treialu yn Doncaster ganol mis Chwefror ac yn yr wythnos gyntaf cafodd y system ei dewis gan 20% o'r dioddefwyr fel eu hoff ddull o gyfathrebu â'r swyddog. Mae'r system ar gael nawr i bob dioddefwr trosedd yn Ne Swydd Efrog.

Mae'r dioddefwyr eu hunain yn argymell TrackMyCrime:

"Dydw i ddim yn gorfod trio dod o hyd i'r swyddog – dw i'n gallu dweud pwy sy'n ymdrin â'r achos drwy logio i mewn i TrackMyCrime."

"Mae'n braf gweld beth sydd wedi cael ei wneud ar sgrin, a gallu ei ailddarllen os nad ydw i wedi deall yn iawn. Mae o fudd mawr i mi gan fy mod i'n gweithio shifftiau ac yn methu â defnyddio fy ffôn i dderbyn galwadau yn y gwaith."

Dywedodd un swyddog, "Mae TrackMyCrime yn hanfodol gan fod y system yn caniatáu i'r dioddefwr reoli'r ffordd y mae'n cael gwybodaeth. Mae manteision i'r swyddogion hefyd: mae hi'n anodd cael amser i gael sgwrs ffôn neu ymweld â dioddefwr weithiau pan ydych chi'n gweithio shifftiau nos, ond wrth ddefnyddio'r system yma rydyn ni'n gallu anfon y diweddariad dros nos a bydd y dioddefwr yn ei gael o pan fydd yn edrych ar ei gyfrif yn y bore."

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod dioddefwyr troseddau'n gallu cael cefnogaeth o safon uchel i'w helpu i ymdopi a dod atynt eu hunain ar ôl dioddef trosedd ac i sicrhau bod dioddefwyr a thystion yn cael cefnogaeth dda a digon o wybodaeth drwy gydol eu cyfnod yn y CJS. Byddwn yn glir hefyd ynglŷn â sut y mae'n rhaid i ddioddefwyr a thystion gael eu trin. Mae'r Cod Dioddefwyr a'r Siarter Tystion yn gwneud llawer i nodi'r hawliau y gall dioddefwyr (a elwir yn achwynwyr yn ystod yr ymchwiliad a'r achos llys) eu disgwyl, a byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr er mwyn cynllunio dulliau o fonitro ac adrodd am gydymffurfiad â'r hawliau hynny.

**Er mwyn gwneud y Cod Dioddefwyr a'r Siarter Tystion yn rhan o'r busnes arferol byddwn yn:**

- gweithio gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr er mwyn diffinio mesurau i fonitro cydymffurfiad â'r Cod Dioddefwyr a'r Siarter Tystion erbyn Gorffennaf 2014;
- pennu trefniadau monitro ac adrodd ar gyfer cydymffurfiad â'r Cod Dioddefwyr a'r Siarter Tystion gan ddefnyddio'r systemau gwybodaeth reoli sy'n bodoli eisoes erbyn mis Medi 2014;
- cyflwyno adroddiad blynyddol cyntaf ar gydymffurfiad i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol erbyn mis Mawrth 2015;
- cynorthwyo'r Comisiynydd Dioddefwyr i argymell safonau gofynnol y gall dioddefwyr eu disgwyl pryd bynnag y maen nhw'n cwyno wrth asiantaeth cyfiawnder troseddol erbyn Rhagfyr 2014; ac
- ymateb i argymhellion y Comisiynydd Dioddefwyr erbyn mis Chwefror 2015.

Bydd rhwydwaith Unedau Cyswllt Dioddefwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron ar draws Cymru a Lloegr wedi'i sefydlu erbyn Gorffennaf 2014. Byddant yn hysbysu dioddefwyr pam y

mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi gwneud ei benderfyniadau a sut y gallant gael rhagor o wybodaeth a herio'r penderfyniadau hyn os oes angen.

Fodd bynnag, mae nifer y gwahanol asiantaethau a chymhlethdod y system yn golygu y gall fod yn dirwedd ddryslyd i ddioddefwyr a thystion ac nid yw bob amser yn glir iddynt gyda phwy y dylent fod yn siarad yn ystod pob cam o'r broses. Mae arnom eisiau egluro a symleiddio'r dirwedd honno a gwneud taith dioddefwyr a thystion drwy'r CJS yn llawer rhwyddach, gan wneud yn siŵr bod y cyfuniad iawn o wybodaeth, cefnogaeth a chyngor ar gael yn genedlaethol ac yn lleol i'w cefnogi drwy gydol eu rhyngweithiadau â'r CJS.

Mae mwy a mwy o gwsmeriaid, wrth ryngweithio â gwasanaethau cyhoeddus – boed hynny i archebu pasbort neu i dalu bil – yn gwneud hynny'n ddigidol. Pan fydd ar ddioddefwr trosedd eisiau gwybodaeth am ei achos ei hun, mae fel arfer yn gorfod ffonio'r swyddog o'r heddlu sy'n ymdrin â'r achos, canfod pa bryd y mae ef neu hi ar ddyletswydd nesaf a gobeithio wedyn y gellir dod o hyd i'r papurau sy'n ymwneud â'r achos. Datblygwyd gwasanaeth olrhain achosion ar-lein – TrackMyCrime – gan Gwnstabliaeth Avon a Gwlad yr Haf – a bydd ar gael i bob heddlu erbyn mis Rhagfyr 2014.

**Er mwyn darparu ymateb mwy cydgysylltiedig i ddioddefwyr a thystion byddwn yn:**

- sefydlu rhwydwaith o Unedau Cyswllt Dioddefwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron ar draws Cymru a Lloegr erbyn mis Gorffennaf 2014;
- sicrhau bod TrackMyCrime ar gael i heddluoedd yng Nghymru a Lloegr erbyn mis Rhagfyr 2014 ac yn annog pob heddlu i gael cynllun i ddarparu system olrhain ar-lein i ddioddefwyr drwy ymgysylltu â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Prif Gwnstabliaid a'r swyddogion perthnasol sy'n gwneud penderfyniadau ym mhob heddlu erbyn Ebrill 2015;
- nodi'r hyn y gall dioddefwyr ei ddisgwyl gan Unedau Cyswllt Dioddefwyr y CPS, Unedau Gofal Tystion, y Gwasanaeth Tystion a sefydliadau eraill sy'n ceisio cefnogi dioddefwyr drwy broses y CJS, erbyn mis Hydref 2014;
- nodi sut y gallwn symleiddio a gwella'r ffordd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd yn gwasanaethu dioddefwyr, a chynnig ffyrdd o gyflawni hyn, erbyn mis Rhagfyr 2014; a
- dechrau ar y gwaith o symleiddio'r gefnogaeth gyffredinol a roddir i ddioddefwyr erbyn mis Ionawr 2015.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod dioddefwyr troseddau'n gallu cael cefnogaeth o safon uchel i'w helpu i ymdopi a dod atynt eu hunain ar ôl dioddef trosedd. Byddwn yn rhyddhau mwy o arian nag erioed o'r blaen ar gyfer gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr, â chyllideb gyfan bosibl o hyd at tua £100m, sy'n ddwbl y swm presennol.

**Er mwyn gwella'r gwasanaethau a ddarperir i gefnogi dioddefwyr a thystion, rydym ar hyn o bryd yn:**

- symud i sefyllfa lle y bydd y rhan fwyaf o wasanaethau cefnogi dioddefwyr yn cael eu comisiynu'n lleol gan Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, o 1 Hydref 2014;
- comisiynu'r Gwasanaeth Dynladdiad cenedlaethol ar sail gystadleuol ar gyfer yr adeg pan fydd y trefniadau cyllido presennol yn dod i ben ym mis Hydref 2014; a

- chomisiynu’r gwasanaeth tystion cenedlaethol mewn llysoedd ar gyfer yr adeg pan fydd y trefniadau cyllido presennol yn dod i ben ym mis Mawrth 2015, er mwyn helpu dioddefwyr i roi eu tystiolaeth orau a chryfhau gallu'r CJS i erlyn troseddau blaenoriaeth.

Rydym yn gwerthuso’r cynllun peilot croesholiad wedi’i recordio ymlaen llaw ar gyfer tystion sy’n agored i niwed. Byddwn yn edrych ar ffyrdd eraill o ddefnyddio technoleg ddigidol er mwyn lleihau’r straen sy’n gysylltiedig â rhoi tystiolaeth o ran tystion agored i niwed, gan gynnwys edrych ar opsiynau ar gyfer cynyddu rhoi tystiolaeth drwy gyswllt byw o leoliadau ar wahân i’r llys.

**Er mwyn cefnogi dioddefwyr a thystion yn y system cyfiawnder troseddol byddwn yn:**

- cynyddu nifer yr achosion ystyrlon o wneud iawn â dioddefwyr drwy ddosbarthu gwybodaeth fel bod dedfrydwyr, ymarferwyr cyflawnder adferol, cwmnïau ailsefydlu cymunedol, timau troseddwyr ifanc a dioddefwyr yn cael gwell gwybodaeth ynglŷn â beth yw gwneud iawn a sut y gall helpu dioddefwyr i ymdopi a chael eu traed danynt erbyn mis Medi 2014;
- ail-lansio’r Pecyn Tystion Ifanc erbyn mis Tachwedd 2014
- diwygio ac ail-lansio cyhoeddiad y Weinyddiaeth *Cyfiawnder Vulnerable and intimidated witnesses: a police service guide for police officers* erbyn mis Rhagfyr 2014;
- adolygu canfyddiadau interim y gwerthusiad o groesholi wedi’i recordio ymlaen llaw ar gyfer tystion sy’n agored i niwed erbyn mis Mawrth 2015 fel sail i benderfyniad ynglŷn â’i gyflwyno’n genedlaethol;
- gweithredu mesurau i wella’r modd y mae tystion agored i niwed ac sy’n cael eu bygwth yn cael eu nodi er mwyn sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth briodol yn ystod pob cam o’r broses cyfiawnder troseddol erbyn mis Mawrth 2015; a
- gwella’r defnydd o Orchmynion Anhysbysrwydd Ymchwiliol i ddarparu mwy o amddiffyniad i dystion sy’n rhoi tystiolaeth yn ystod ymchwiliad yr heddlu erbyn Mawrth 2015;

Rhaid i ddioddefwyr gael y tegwch a’r parch y maent yn ei haeddu. Byddwn yn casglu ac yn adolygu tystiolaeth ac yn gweithio gyda’r Comisiynydd Dioddefwyr er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r ffordd y mae dioddefwyr a thystion yn cael eu trin yn y CJS. Byddwn yn adolygu pa gefnogaeth sy’n cael ei darparu i ddioddefwyr yn y llys gan erlynwyr ac yn cyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer ffyrdd gwell o weithio i’r Bwrdd.

**Er mwyn sicrhau bod dangos parch tuag at ddioddefwyr a thystion yn norm byddwn yn:**

- adolygu ac yn dadansoddi ymddygiadau yn y CJS, gan weithio gyda’r Comisiynydd Dioddefwyr, a datblygu cynigion i wella’r ffordd y mae dioddefwyr a thystion yn cael eu trin erbyn Ionawr 2015; ac
- adolygu cefnogaeth i ddioddefwyr yn y llys gan Wasanaeth Erlyn y Goron erbyn Rhagfyr 2015.

## CJS ddigidol

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu CJS ddigidol. Roedd cynllun y llynedd yn nodi nifer o gamau gweithredu a fyddai'n darparu'r blociau adeiladu ar gyfer trawsnewidiad digidol y CJS. Roedd *Criminal Justice System Digital Business Model*,[4] a gyhoeddwyd yn Ebrill 2014, yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer system ddiwygiedig wedi'i digideiddio. Mae'n nodi sut y bydd y system yn trosglwyddo gwybodaeth am achosion yn ddi-dor ac yn ddiogel o'r heddlu i'r erlyniad ac i'r amddiffyniad a'r llysoedd yn ddi-oed, fel bod yr wybodaeth ar gael ar yr adeg iawn i'r bobl sydd ei hangen. Bydd yn casglu gwybodaeth unwaith, yn y pwynt cyswllt cyntaf gyda'r dioddefwr, y tyst neu'r diffynnydd. Ni fydd angen ailgofnodi gwybodaeth na'i dyblygu. Bydd yr wybodaeth yn aros mewn un lle a bydd ar gael dim ond i'r rhai hynny sydd â hawl i'w gweld. Bydd hyn yn lleihau costau ac oedi.

Rydym wedi cymryd camau pwysig, ond mae gennym ragor o waith i'w wneud er mwyn gwireddu'r weledigaeth sy'n cael ei hamlinellu yn y Model Busnes Digidol. Mae angen i ni roi terfyn ar ddibyniaeth hen ffasiwn y system ar bapur a'i throi'n system fodern, effeithlon sy'n cael ei chefnogi gan y technolegau diweddaraf sy'n gweithredu mewn ffordd a fyddai'n cael ei chymryd yn ganiataol yn y sector preifat.

### Beth rydym wedi'i gyflawni

Rydym wedi:

- **nodi ein gweledigaeth ar gyfer CJS** g**wbl ddigidol** yn *CJS Digital Business Model*;
- lansio rhaglen **Police Digital Pathfinders** i gefnogi rhannu syniadau, mentrau newydd a'r arferion gorau rhwng heddluoedd;
- sicrhau bod y rhan fwyaf o'r heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn **trosglwyddo dros 90% o ffeiliau achosion yn electronig** i Wasanaeth Erlyn y Goron;
- **profi ffeil ddigidol wedi'i moderneiddio** gydag wyth heddlu ar gyfer rhai troseddau diannod;
- sefydlu **llys digidol enghreifftiol** yn Birmingham a llys prawf yn Bromley;
- annog mwy o **ymarferwyr amddiffyn i ddefnyddio e-bost diogel**, a sicrhau bod gan bob darparwr cymorth cyfreithiol e-bost diogel er mwyn derbyn tystiolaeth electronig gan asiantaethau erlyn.

**Astudiaeth achos – technoleg ddigidol yn Llys Ynadon Bromley**

Profodd y llys cysyniadol digidol a sefydlwyd yn Llys Ynadon Birmingham yn 2013 ei bod yn bosibl gweithio'n ddigidol mewn llys. Yn dilyn y llwyddiant hwn, Llys Ynadon Bromley yw'r llys troseddol cyntaf yng Nghymru a Lloegr i gael defnyddio technoleg ddigidol fel rhan o raglen uchelgeisiol i sicrhau bod llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr yn gweithio'n ddigidol erbyn Gorffennaf 2016.

Mae'r dechnoleg yn Bromley yn caniatáu cysylltiad di-wifr o gyfrifiaduron llechen neu

[4] CJS Digital Business Model, Ebrill 2014, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder

gliniaduron i sgriniau mawr yn y llys fel bod pawb yn yr ystafell yn gallu gweld clipiau teledu cylch cyfyng, ffotograffau, clipiau fideo a mapiau.

Dywedodd Cyfarwyddwr Rhaglen Effeithlonrwydd y CJS: “Mae eiriolwyr yn gallu cyflwyno deunydd digidol o safon o’u dyfeisiau eu hunain – yn syth i’r llys. Mae hyn yn caniatáu i’r llys gael gwared ar beiriannau DVD ac mae’n golygu nad oes angen copïau papur o dystiolaeth a deunydd achosion.”

## Beth fyddwn ni’n ei wneud nesaf

Mae tystiolaeth a gesglir ar safle trosedd yn dal i gael ei chofnodi mewn llyfrau nodiadau gan swyddogion yr heddlu, ac mae pentyrrau o waith papur cyfreithiol yn ein llysoedd o hyd. Dylai tystiolaeth o ansawdd gwell, sydd wedi’i dal ar ddyfeisiau symudol, gynyddu’r tebygolrwydd o gael euogfarn, fel bod mwy o droseddwyr yn debygol o bledio’n euog yn gynharach, a llai o ddioddefwyr yn gorfod wynebu’r gofid o fynd drwy dreial. Bydd CJS ddigidol yn rhoi mwy o hyder i’r cyhoedd yr ymdrinnir â throseddau mewn ffordd gyflym a phendant, o’r adeg y mae’r heddlu’n dechrau eu hymchwiliad nes bydd y troseddwr yn cael ei ddal a’i ddwyn gerbron ei well.

Mae defnyddio camerâu a wisgir ar gorff, sy’n golygu bod modd casglu tystiolaeth uniongyrchol a dibynadwy ar ddechrau cysylltiad yr heddlu â throsedd, yn enghraifft o arloesi yng ngwasanaeth yr heddlu. Mae Cronfa Arloesi’r Heddlu ar gyfer 2014/15 yn bodoli er mwyn ysgogi cydweithio, digideiddio a chamau arloesol eraill er mwyn gwella plismona. Mae gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu fwy o rôl arwain yng nghyswllt TG yr heddlu, ac mae Cyllid Arloesi wedi darparu Cyfarwyddwr TG iddynt i’w cynorthwyo i ysgogi arloesedd a gwerth am arian.

Bydd swyddogion yr heddlu’n cael yr offer y mae arnynt eu hangen er mwyn gallu dechrau cofnodi tystiolaeth yn ddigidol ar safle trosedd, gan gymryd datganiadau a lanlwytho gwybodaeth ddigidol am achosion â dyfeisiau symudol heb fod angen mynd yn ôl i orsaf yr heddlu. Byddant yn gallu codi datganiadau tystion a dioddefwyr yn electronig ar eu dyfais symudol neu fideo ar gorff ar safle trosedd.

**Er mwyn cynorthwyo heddluoedd i ddod yn ddigidol erbyn 2016 byddwn yn:**

- sefydlu trefniadau llywodraethu i oruchwylio cefnogaeth y Coleg Plismona i ddigideiddio;
- hwyluso heddluoedd i adeiladu eu sail dystiolaeth eu hunain o amgylch digideiddio, y bydd y Coleg yn ei chasglu a’i rhannu â heddluoedd eraill;
- rhannu arferion da a thystiolaeth drwy gymuned POLKA (gwybodaeth ar-lein yr heddlu), digwyddiad i Ddirprwy Brif Gwnstabliaid ar ddigideiddio ym mis Gorffennaf 2014 a thrwy gofnodi ac arddangos gweithgaredd datblygu’r heddlu;
- defnyddio prosiectau’r Gronfa Arloesi i nodi meysydd lle mae angen rhoi blaenoriaeth i ddatblygu gwasanaethau digidol erbyn Tachwedd 2014 a chytuno ar feysydd digidol a ddylai gael blaenoriaeth a gweithgaredd cenedlaethol i gefnogi’r rhain;
- nodi cyfleoedd ar gyfer arloesi, cydweithio a sicrhau gwell gwerth am arian;
- cynorthwyo heddluoedd i asesu eu gallu digidol eu hunain ar gyfer arolygiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn y dyfodol;
- defnyddio Bluelightworks (gwasanaeth cyn caffael ar gyfer plismona) er mwyn sicrhau bod gan heddluoedd ddigon o wybodaeth pan fyddant yn gwneud penderfyniadau

ynglŷn â beth i fuddsoddi ynddo;

- gwerthuso'r iteriad nesaf o alluoedd digidol erbyn Tachwedd 2014;
- cyhoeddi safonau a chanllawiau i heddluoedd ar ddefnyddio fideo sy'n cael ei wisgo ar y corff erbyn Hydref 2014; a
- gwerthuso treialon fideo sy'n cael ei wisgo ar y corff fel sail i'w cyflwyno ymhellach.

Bydd llysoedd digidol yn golygu bod holl ddefnyddwyr proffesiynol llysoedd yn defnyddio cyfrifiaduron llechen neu liniaduron ac nad oes angen papur. Bydd erlynwyr troseddol a chyfreithwyr yr amddiffyniad mewn llysoedd ynadon yn gweithio'n ddigidol, gan gyflwyno achosion o ddyfeisiau symudol digidol a bydd ynadon yn gallu gweld gwybodaeth am achosion ar ddyfeisiau digidol. Bydd cysylltiadau Wi-Fi yn caniatáu i ddefnyddwyr proffesiynol llysoedd ddefnyddio eu systemau eu hunain a'r rhyngrwyd. Ni fydd angen iddynt ddibynnu ar ffeiliau swmpus a byddant yn gallu rhannu gwybodaeth yn gyflym gyda phobl eraill yn ystafell y llys. Bydd cyfarpar digidol yn golygu bod pob defnyddiwr llys yn gallu gweld tystiolaeth fel teledu cylch cyfyng, ffotograffau neu drawsgrifiadau o alwadau 999 ar sgriniau o'u blaenau.

**Er mwyn darparu ystafelloedd llys digidol yn bennaf byddwn yn:**

- parhau i hyrwyddo'r defnydd o e-bost diogel gan yr amddiffyniad i alluogi deunyddiau achos Gwasanaeth Erlyn y Goron i gael eu darparu'n ddigidol cyn i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr yr amddiffyniad gael a defnyddio e-bost diogel o fis Gorffennaf 2015 fel y rhagnodwyd yn y contract cymorth cyfreithiol troseddol newydd;
- cyflwyno sgriniau a chyfarpar fel bod modd gwneud cyflwyniadau digidol mewn llysoedd ynadon mewn ardaloedd prawf erbyn Awst 2014 ac yn genedlaethol erbyn Awst 2015;
- cyflwyno storfa ddata rheoli achosion yn y llysoedd mewn ardaloedd prawf erbyn Rhagfyr 2014 ac yn genedlaethol erbyn Mehefin 2015;
- cyflwyno ateb a fydd yn galluogi ynadon i weld tystiolaeth yn ddigidol mewn ardaloedd prawf erbyn Ebrill 2015 ac yn genedlaethol erbyn Medi 2015;
- cyflwyno Wi-Fi ar gyfer defnyddwyr proffesiynol mewn llysoedd ynadon mewn ardaloedd prawf erbyn Rhagfyr 2014 ac i ddefnyddwyr proffesiynol ym mhob llys ynadon erbyn Mawrth 2016; a
- darparu camau gweithredu cyfatebol i gefnogi gwaith digidol yn Llys y Goron erbyn Gorffennaf 2016.

Weithiau nid yw systemau TG gwahanol yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron a GLITEM o gymorth er mwyn rhannu gwybodaeth yn effeithiol. Byddwn yn adeiladu'r seilwaith ar gyfer gwasanaeth cydgysylltiedig. Byddwn yn datblygu safonau agored, a fydd yn galluogi systemau TG cyfiawnder troseddol i siarad gyda'i gilydd yn fwy effeithiol a gwasanaeth storio tystiolaeth digidol ar gyfer yr heddlu i rannu tystiolaeth ddigidol â'u partneriaid cyfiawnder troseddol.

**Er mwyn darparu llwyfan cyffredin ar gyfer rheoli gwybodaeth achosion yn ddigidol byddwn yn:**

- gosod safonau gwybodaeth agored er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn llifo'n ddirwystr rhwng yr heddlu a systemau cyfiawnder troseddol;
- cwblhau ymchwil i ddatblygu dull o gyrchu elfennau system rheoli achosion gyfun ar gyfer GLITEM a Gwasanaeth Erlyn y Goron erbyn Gorffennaf 2014;
- cynhyrchu offeryn i alluogi GLITEM i ddechrau rheoli'r broses yn ddigidol ar gyfer pleon euog, neu brofi yn absenoldeb unigolyn, ar gyfer troseddau traffig diannod mewn llys enghreifftiol erbyn Medi 2014 a fersiwn â rhagor o nodweddion o'r offeryn yn addas i'w gyflwyno'n ehangach neu ei ymestyn i fathau ychwanegol o achosion erbyn Ebrill 2015;
- datblygu a phrofi proses ddigidol integredig o ben i ben ar gyfer asiantaethau cyfiawnder troseddol erbyn Ebrill 2015;
- datblygu gwasanaeth storio tystiolaeth digidol ar gyfer plismona sy'n eu galluogi i rannu tystiolaeth ddigidol â chydweithwyr yn y system cyfiawnder troseddol erbyn 2016, a
- darparu'r elfennau fydd eu hangen i adeiladu system rheoli achosion gyfun ar gyfer GLITEM a Gwasanaeth Erlyn y Goron erbyn Mawrth 2017.

Un feirniadaeth ar brosesau'r CJS yw natur ailadroddus cofnodi'r un wybodaeth. Byddwn yn creu system lle mae gwybodaeth yn cael ei chofnodi unwaith yn unig, ar y cyfle cynharaf. O hynny ymlaen, bydd yn llifo drwy'r system ac ni fydd angen ffeiliau papur nac ailfewnbynnu gwybodaeth.

**Er mwyn gweithredu ffeiliau digidol wedi'u moderneiddio yn genedlaethol byddwn yn:**

- cyflwyno ffeil ddigidol wedi'i moderneiddio yn genedlaethol ar gyfer achosion traffig llysoedd ynadon erbyn Rhagfyr 2014;
- cyflwyno ffeil ddigidol wedi'i moderneiddio yn genedlaethol ar gyfer pob trosedd mynych (gwrandawiad cyntaf) yn llys yr ynadon erbyn Ebrill 2015;
- datblygu a phrofi ffeil ddigidol wedi'i moderneiddio ar gyfer pob achos arall yn llys yr ynadon erbyn Ebrill 2015;
- datblygu a phrofi offeryn digidol i alluogi'r heddlu i ddechrau rhoi data mewn ffeiliau digidol wedi'i moderneiddio cyn gynted ag y bo modd erbyn Ebrill 2015; ac
- ystyried ar gyfer pa achosion yn Llys y Goron y gallai'r ffeil ddigidol wedi'i moderneiddio fod yn addas; datblygu, profi a chyflwyno erbyn Ebrill 2016.

Bydd y Bwrdd yn annog mwy o ddefnydd o dechnoleg fideo, lle bo'n briodol, ar gyfer dioddefwyr a thystion, unigolion sydd dan amheuaeth, swyddogion yr heddlu a chyfreithwyr er mwyn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o'u hamser hwy ac o amser asiantaethau'r CJS. Dylid defnyddio technoleg fideo'n ddiofyn oni bai fod angen yr unigolyn yn ystafell y llys. Bydd diffynyddion sydd mewn carchar yn ymddangos yn y llys yn amlach drwy gyswllt fideo ar gyfer gwrandawiadau cyn treial, gan leihau costau trafnidiaeth a chyflymu'r broses. Byddwn hefyd yn profi ffyrdd o alluogi tystion i ddarparu tystiolaeth o bell, ac i swyddogion yr heddlu wneud cais am warant drwy gyswllt fideo o orsaf yr heddlu i'r llys, a byddwn yn profi cynadledda fideo rhwng cwnsleriaid yr amddiffyniad mewn Siambrau a'u cleientiaid yn y carchar.

**Er mwyn cynyddu'r defnydd o fideo ar draws y system cyfiawnder troseddol byddwn yn:**

- rhedeg cynllun peilot datrysiad fideo ar y rhyngrwyd (IBVS) rhwng yr heddlu a'r llys, gyda thystion yn darparu tystiolaeth a swyddogion yn gwneud cais am warantau drwy gyswllt fideo erbyn Awst 2014;
- profi "rhith ymweliadau cyfreithiol" gan gwnsleriaid yr Amddiffyniad ar gyfer ymgynghoriadau drwy gynadledda fideo IBVS o Siambrau at gleientiaid sy'n cael eu cadw mewn carchar, erbyn Medi 2014;
- annog pob heddlu i gael technoleg fideo sy'n gallu rhyngweithio â'r llys a rhannu'r arferion gorau ar draws lluoedd er mwyn dangos manteision defnyddio fideo, gan annog y lluoedd hynny sydd heb becyn fideo ar hyn o bryd i fuddsoddi erbyn Mawrth 2015;
- profi'r defnydd o dechnoleg fideo ar gyfer gwrandawiadau remand ieuenctid lle bo modd (y gwrandawiadau priodol yw trydydd gwrandawiadau ac ail wrandawiadau lle nad yw'n debygol y rhoddir mechnïaeth) erbyn Mawrth 2015; a
- nodi y bydd gan bob carchar a llys amcan sy'n gysylltiedig â chynyddu'r defnydd o dechnoleg fideo a byddwn yn galw rheolwyr gweithredol i gyfrif am gyflawni'r amcanion hyn erbyn Ebrill 2015;
- gweithio gyda defnyddwyr llys proffesiynol i gynyddu'r defnydd o dechnoleg fideo ar gyfer ymddangosiadau gan yr heddlu, tystion arbenigol, meddygol a phroffesiynol, gyda'r bwriad o wneud ceisiadau am hyn yn sefyllfa ddiofyn lle bo modd erbyn Mai 2015.

# CJS sy'n gwneud pethau'n gynt ac yn iawn y tro cyntaf

Ni fydd gan y cyhoedd ffydd mewn system lle mae'r achosion symlaf yn cymryd hanner blwyddyn i'w cwblhau, lle gall dioddefwr trosedd aros chwe mis cyn gwybod canlyniad yr achos, a lle nad yw bron i hanner yr achosion yn mynd yn eu blaenau ar y diwrnod y maent i fod i gael eu cynnal. Os nad yw diffynnydd euog yn cyfaddef ei fod yn euog ar y cyfle cyntaf, mae dioddefwyr yn profi gofid diangen, ac mae asiantaethau'r CJS yn gwastraffu amser ac arian yn paratoi ar gyfer treial sydd ddim yn mynd i ddigwydd. Yn ogystal â defnyddio'r dechnoleg newydd i drawsnewid y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu, rhaid i ni weithio gyda'n gilydd ar draws y system i drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio.

Ni fydd digideiddio'r system yn ddigon i ddarparu'r gwasanaeth y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl. Mae angen i ddioddefwyr a thystion fod yn ffyddiog yr ymdrinnir â'u hachosion mewn ffordd broffesiynol ac effeithlon, gan roi blaenoriaeth i'w hanghenion. Mae annibyniaeth y farnwriaeth, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu'n sicrhau bod rheolau cyfraith yn cael eu cadw a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud heb unrhyw ymyriad. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na all pob rhan o'r system weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod prosesau'n effeithlon.

## Beth rydym wedi'i gyflawni

Rydym wedi:

- **cynyddu cyflymder prosesu achosion**. Gwelwyd gwelliant yn yr amser cyfartalog rhwng adeg y trosedd ac adeg cwblhau'r achos, ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol (troseddau naill ffordd ditiadwy/i'w treialu) o 155 diwrnod yn Ch1 2013 i 151 diwrnod yn Ch1 2014;[5]
- cynyddu nifer yr **erlyniadau gan yr heddlu** ar gyfer troseddau traffig diwrthwynebiad a throseddau penodol eraill ym mhob ardal heddlu ond dau;
- sefydlu **llysoedd traffig** pwrpasol ym mhob un o'r 42 ardal heddlu;
- **cyflwyno deddfwriaeth** i ganiatáu i achosion addas diannod yn unig, na allant arwain at ddedfryd o garchar, sy'n syml ac yn ddiwrthwynebiad gael eu cynnal yn rhywle ar wahân i ystafelloedd llysoedd ynadon traddodiadol; a
- chadw **achosion o ddwyn eitemau isel eu gwerth o siop mewn llysoedd ynadon**, ac eithrio lle bo diffynnydd yn dewis treial gerbron rheithgor, fel bod llai o achosion yn mynd ymlaen i Lys y Goron.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

Bydd system lle mae achosion yn cael eu trin yn gywir ar y lefel iawn, a lle mae'r canlyniad yn ddibynadwy ac yn ennyn hyder y cyhoedd, yn helpu dioddefwyr ac yn darparu gwell gwerth am arian. Mae penderfyniadau sy'n cael eu gwneud heb fynd i'r llys yn ffordd effeithlon ac effeithiol o ymdrin â rhai mân droseddau. Byddwn yn creu ac yn profi fframwaith wedi'i foderneiddio ar gyfer penderfyniadau y tu allan i'r llys sy'n haws i'r

[5] Court statistics (quarterly) January to March 2014, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder

cyhoedd a dioddefwyr ei ddeall ac i ymarferwyr ei weithredu, ac sy’n sicrhau bod troseddwyr difrifol a mynych bob amser yn ymddangos gerbron llys. Bydd y Llywodraeth cyn bo hir yn cyhoeddi pecyn o fesurau i gyflawni’r newidiadau hyn.

Pan fo achos yn trosglwyddo i Lys y Goron, mae’n mynd yn fwy costus, mae’n cymryd mwy o amser, ac nid yw’n defnyddio arbenigedd ynadon sy’n dod o’u cymunedau lleol i ddarparu cyfiawnder lleol. Credwn fod angen cryfhau rôl ynadon, ac y dylent fod yn ymdrin â mwy o’r troseddau sy’n effeithio ar eu cymunedau. Yn ddiweddarach eleni byddwn yn ymgynghori ynglŷn â’r ffordd orau o gyflawni hyn.

**Er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl iawn yn ymdrin â’r achosion iawn a’r troseddwyr iawn byddwn yn:**

- cyhoeddi ymateb i’r ymgynghoriad ar benderfyniadau y tu allan i’r llys; ac yn
- ymgynghori ynglŷn â sut i wella rôl ynadon erbyn Rhagfyr 2014.

Dylai’r system cyfiawnder diannod ddarparu cyfiawnder syml a chyflym ar gyfer troseddu lefel isel, ac mae’r llysoedd ynadon yn ymdrin â thros 90% o’r holl achosion troseddol bob blwyddyn.[6] Ond mae ynadon, fel arfer yn eistedd mewn grwpiau o dri, ac mae barnwyr rhanbarth yn llywyddu dros system sydd wedi mynd yn gymhleth, yn feichus ac yn aneffeithlon. Mae arnom eisiau CJS gyflymach, â llai o dreialon aneffeithiol a chwâl, amseroedd aros byrrach i dystion a chanlyniadau cyflymach i ddioddefwyr. Bydd y rhaglen Trawsnewid Cyfiawnder Diannod yn darparu prosesau mwy modern yn llysoedd yr ynadon.

**Er mwyn trawsnewid cyfiawnder diannod byddwn yn:**

- gweithio gydag ardaloedd cyfiawnder troseddol lleol i ddarparu cyfiawnder diannod cynt drwy leihau nifer y gwrandawiadau ar gyfer pob achos, cynyddu cyfradd y treialon effeithiol, lleihau nifer y gohiriadau a moderneiddio trefniadau datgelu yn unol â’r adolygiad sy’n cael ei arwain gan farnwyr o ddatgelu mewn llysoedd ynadon;
- gweithredu’r model 10 pwynt ar gyfer cyfiawnder diannod yng Nghymru a Lloegr erbyn Mai 2015 a chefnogi argymhellion cysylltiedig yr adolygiad o ddatgelu mewn llysoedd ynadon;
- sefydlu cynllun monitro i sicrhau bod yr argymhellion ar gyfer datgelu diannod yn cael eu gweithredu’n effeithiol fel rhan o’r model cyfiawnder diannod;
- dechrau gweithredu’r Un Weithdrefn Gyfiawnder o Ebrill 2015 ymlaen.

Mae’r achosion mwyaf difrifol a chymhleth yn cael eu clywed gan Lys y Goron. Dim ond hanner (51%) y treialon yn Llys y Goron sy’n mynd yn eu blaenau ar y diwrnod y maent wedi cael eu rhestru. Yn chwarter cyntaf 2014, roedd achos cyffredin yn Llys y Goron yn cymryd 304 diwrnod o adeg y trosedd tan adeg ei gwblhau, ac roedd 70% o’r diffynyddion a oedd yn cofnodi ple yn pledio’n euog rywbryd neu’i gilydd yn ystod eu hachos yn Llys y Goron.[7] Gall profiad dioddefwyr a thystion fod yn un rhwystredig. Mae paratoi i roi

[6] Court statistics (quarterly) January to March 2014, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
[7] Court statistics (quarterly) January to March 2014, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder

tystiolaeth mewn treial yn gallu codi ofn ar rywun ac mae’r ansicrwydd a fydd yr achos yn mynd yn ei flaen ai peidio’n gwneud yr ofn hwnnw’n waeth. Bydd pob un o bartneriaid y CJS yn cytuno sut i weithredu cynigion yr Uwch Farnwr Llywyddol ar gyfer model cyson cenedlaethol o’r Cynllun Ple Euog Cynnar. Bydd y cynllun yn anelu at annog pleon euog cynnar, lleihau nifer y gwrandawiadau cyn treial a gwella rheoli achosion. Bydd adolygiad Syr Brian Leveson o effeithlonrwydd mewn achosion troseddol yn nodi sut y gall llysoedd wneud y defnydd gorau o’u hamser, a bydd y Bwrdd yn cefnogi’r gwaith hwn wrth iddo fynd yn ei flaen.

**Er mwyn gwella effeithlonrwydd Llys y Goron byddwn yn:**

- dod i gytundeb ar draws y system cyfiawnder troseddol ynglŷn â sut i weithredu cynigion yr Uwch Farnwr Llywyddol ar gyfer model cyson cenedlaethol o’r Cynllun Ple Euog Cynnar ar gyfer Llys y Goron na fydd yn caniatáu amrywiadau lleol, ond a fydd yn cadw disgresiwn barnwrol ac yn annog pleon euog cynnar;
- gwneud yn siŵr bod manteision y dull wedi’i deilwra ar gyfer achosion trwm-ar-bapur sy’n cael eu profi mewn pedair canolfan llys yn cael eu gwireddu’n llawn a bod gofynion datgelu’n cael eu cyflawni; a
- chefnogi gwaith Llywydd Adran Mainc y Frenhines sy’n adolygu effeithlonrwydd mewn achosion troseddol ac y disgwylir adroddiad arno erbyn Tachwedd 2014.

# Ymateb yn iawn i droseddau

Gwyddom fod rhai troseddau blaenoriaeth sydd angen ymateb estynedig. Mae'r rhain i gyd yn droseddau lle mae'r troseddwyr yn wynebu anawsterau penodol neu lle gall fod yn anodd iawn cael euogfarn. Maent hefyd yn droseddau sy'n galw am ymateb cenedlaethol, cydgysylltiedig. Ar gyfer cynllun eleni, y troseddau hynny yw: Trais rhywiol; trais a cham-drin domestig; caethwasiaeth fodern; seiberdroseddu; a throseddau casineb.

## Beth rydym wedi'i gyflawni

Rydym wedi:

- ymchwilio i fesurau y gellir eu cymryd i **leihau'r gofid a deimlir gan ddioddefwyr pan fyddant yn cael eu croesholi**. Bydd yr argymhellion o'r gwaith hwnnw'n cael eu rhoi ar waith fel camau gweithredu yng nghynllun eleni;
- darparu ar gyfer **gwasanaeth estynedig i ddioddefwyr** trais rhywiol, trais domestig a masnachu pobl dan y Cod Dioddefwyr newydd;
- rhoi offerynnau newydd i'r heddlu ymateb yn effeithiol i **drais a cham-drin domestig**, drwy gyflwyno Deddf Clare a gorchmynion amddiffyn trais domestig yn genedlaethol;
- erlyn dros 78,000 a **chael dros 58,000 o bobl yn euog o drais domestig** yn 2013/14, cynnydd o dros 7,000 a 6,000 yn eu tro ar 2012-13;
- cyrraedd y **gyfradd euogfarnau uchaf erioed ar gyfer troseddau trais domestig** sef 75% Mae naw o bob deg o'r euogfarnau hyn yn codi o bleon euog sy'n golygu nad yw'r mwyafrif helaeth o ddioddefwyr yn gorfod rhoi tystiolaeth yn y llys;
- asesu sut yr **ymdrinnir â throseddau casineb anabledd** mewn nifer o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, a rhoi sylw i'r canfyddiadau drwy gamau gweithredu yn y cynllun hwn; ac
- annog defnydd ehangach o **ddatganiadau effaith ar y gymuned** mewn troseddau sy'n difetha cymunedau, gan gynnwys troseddau gynnau a chyllyll.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

Nid oes angen atgoffa neb ynglŷn â'r angen i roi blaenoriaeth i sicrhau bod dioddefwyr trais rhywiol yn cael mwy o gefnogaeth i roi gwybod am droseddau ac yna i roi tystiolaeth yn erbyn y troseddwyr. Bydd y Grŵp Cenedlaethol ar Drais Rhywiol yn erbyn Plant a Phobl Agored i Niwed yn cyhoeddi pecyn o fesurau i wneud yn siŵr bod dioddefwyr trais rhywiol yn cael mynediad at ddigon o wasanaethau a'u bod yn cael cefnogaeth briodol i ymdopi a dod atynt eu hunain.

Byddwn yn gliriach ynglŷn â rolau'r bobl a'r sefydliadau sy'n cefnogi dioddefwyr a thystion yn y system cyfiawnder troseddol, ac yn gliriach o ran sut y gall dioddefwyr gael gafael ar y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Bydd y Grŵp Cenedlaethol hefyd yn gweithredu argymhellion o adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014 ar ffyrdd o leihau'r gofid a achosir i rai dioddefwyr mewn treialon trais rhywiol, gan edrych yn fwyaf arbennig ar y broses groesholi. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi sefydlu Unedau pwrpasol ar gyfer Trais Rhywiol a Throseddau Rhywiol Difrifol ym mhob ardal ac mae'n

gweithio er mwyn sicrhau mwy o ganlyniadau llwyddiannus, gollwng llai o achosion, a sicrhau bod llai o achosion yn methu am resymau ar wahân i ryddfarn rheithgor.

**Er mwyn mynd i'r afael â thrais rhywiol yn well, byddwn yn:**

- gweithredu'r cyd-Gynllun Gweithredu Trais Rhywiol rhwng y Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu a ddatblygwyd yn dilyn Panel Craffu Cenedlaethol ar Drais Rhywiol;
- cyhoeddi canllawiau i egluro rôl a phwrpas cyfryngwyr, cynghorwyr trais rhywiol a domestig annibynnol (ISVA a IDVA) a phobl eraill sy'n 'cefnogi' dioddefwyr a thystion ym mhroses y llys, a beth y gall dioddefwyr a thystion ei ddisgwyl;
- gweithredu trothwy rheolaeth estynedig ar gyfer achosion penodol gan rai sy'n dod i gysylltiaid â dioddefwyr trais rhywiol, i sicrhau y canolbwyntir ar eu hanghenion;
- dileu anghysonderau a dod o hyd i ffyrdd o gysoni rheolau ymddygiad proffesiynol i gefnogi trefniadau rheoli a threialon effeithiol ar gyfer troseddau rhyw; a
- defnyddio'r dystiolaeth o adolygiad y Swyddfa Gartref ynglŷn â'r ffordd y mae troseddau rhyw yn cael eu hymchwilio a'u herlyn, a nodi pa gamau pellach sydd eu hangen erbyn gwella ymateb y CJS i droseddau rhyw.

Mae trais a cham-drin domestig yn difetha bywydau ac yn droseddau cwbl annerbyniol. Dyna pam fod y Llywodraeth hon wedi gwneud mynd i'r afael â thrais domestig yn un o'i phrif flaenoriaethau. Fis Medi diwethaf, comisiynydd yr Ysgrifennydd Cartref Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) i gynnal adolygiad cynhwysfawr o ymateb yr heddlu i drais a cham-drin domestig am ei bod yn bryderus mad oedd yr ymateb gystal ag y gallai fod.

Ar 27 Mawrth, cyflwynodd HMIC ei chanfyddiadau ac maent yn destun cryn bryder. Tynnodd adroddiad HMIC sylw bod ymateb cyfredol yr heddlu i gam-drin domestig yn methu â gwasanaethu dioddefwyr. Nododd ddiffyg arweiniad a chyfeiriad gweledol gan uwch swyddogion. Nododd hefyd wendidau annerbyniol mewn gweithgareddau plismona craidd: ymchwilio i droseddau, atal troseddau, dod â throseddwyr o flaen eu gwell a chadw dioddefwyr yn ddiogel. Mae'r Ysgrifennydd Cartref yn arwain gwaith drwy'r Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol i sicrhau bod yr heddlu'n cymryd camau ar frys i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn.

**Er mwyn mynd i'r afael â cham-drin domestig yn well, byddwn yn:**

- Gweithredu'r camau yn y Cynllun Gweithredu Trawslywodraethol i Roi Diwedd ar Drais yn erbyn menywod a Merched 2014 i wella ymateb CJS i drais domestig;
- Sicrhau y cyflawnir yn erbyn argymhellion HMIC, drwy Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol yr Ysgrifennydd Cartref, i wella ymateb yr heddlu i gam-drin domestig gan gynnwys cyhoeddi cynlluniau gweithredu gan bob heddlu erbyn Medi 2014;
- Gwella casglu data a rheoli perfformiad a drais domestig drwy ddatblygu a gweithredu safon data newydd gorfodol ar gyfer trais domestig i'r heddlu;
- Adeiladu adborth gan ddioddefwyr i mewn i fonitro ymateb yr heddlu i gam-drin domestig; a
- Chyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru o ganllawiau'r CPS ar gam-drin domestig.

Er bod 200 mlynedd ers dileu caethwasiaeth yn y Deyrnas Unedig, gwyddom fod y trosedd erchyll hwn yn parhau yn y Deyrnas Unedig a thramor. Mae camfanteisio difrifol ar oedolion a phlant sy'n cael eu masnachu i mewn i'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol, caethwasanaeth domestig a llafur gorfodol. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i arwain yr ymdrech ryngwladol i ddileu caethwasiaeth. Mae Bil Caethwasiaeth Fodern y Llywodraeth yn symleiddio ac yn cryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol, a bydd yn sicrhau bod troseddwyr yn cael cosbau digon difrifol ar gyfer y troseddau erchyll hyn. Mae'n gwella cefnogaeth i ddioddefwyr, gan gynnwys gwneud darpariaeth benodol ar gyfer eiriolwyr arbenigol i blant sy'n ddioddefwyr. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer Comisiynydd Atal Caethwasiaeth annibynnol newydd, a fydd yn gweithio gyda sefydliadau gorfodi'r gyfraith i ysgogi ymateb gweithredol cadarn a chynhwysfawr. Byddwn hefyd yn cyhoeddi strategaeth yn egluro sut y bydd sefydliadau gorfodi'r gyfraith a phartneriaid eraill, yn y Deyrnas Unedig a thramor, yn gweithio gyda'i gilydd i ddileu caethwasiaeth fodern.

**Er mwyn mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yn well, byddwn yn:**

- defnyddio'r Bil Caethwasiaeth Fodern i sicrhau bod sefydliadau gorfodi'r gyfraith yn cael yr offer y mae arnynt ei hangen i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern sefydlu Comisiynydd Atal Caethwasiaeth i sicrhau bod sefydliadau gorfodi'r gyfraith yn gwneud popeth posibl i fynd i'r afael â'r trosedd hwn;
- ategu'r Bil, â rhaglen weithgareddau gynhwysfawr, gan gynnwys:
  - cyhoeddi strategaeth yn amlinellu sut y bydd partneriaid gorfodi'r gyfraith yn cydweithio i ddod â throseddwyr o flaen eu gwell a chefnogi dioddefwyr, yn y Deyrnas Unedig a thramor; a
  - nodi caethwasiaeth fodern fel blaenoriaeth i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA), gan wneud defnydd llawn o'i swyddogaethau gwybodaeth, gosod tasgau a chydgysylltu er mwyn mynd i'r afael â ffurfiau gwaethaf caethwasiaeth fodern ac arwain ymateb sefydliadau gorfodi'r gyfraith.
- rhoi gwell cefnogaeth i ddioddefwyr caethwasiaeth fodern drwy adolygu a gwella'r gefnogaeth a geir drwy'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol; gwneud Contract Gofal Dioddefwyr newydd a threialu eiriolwyr plant i roi cefnogaeth arbenigol i blant sy'n ddioddefwyr.

Mae troseddwyr yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd y mae'r rhyngrwyd yn eu cynnig i gyflawni troseddau ar-lein. Mae angen i ni sicrhau bod yr heddlu a phartneriaid CJS yn cydnabod ac yn mynd i'r afael â throseddau sy'n cael eu cyflawni ar-lein â'r un graddau o broffesiynoldeb a gallu ag a ddefnyddir wrth fynd i'r afael â throseddu 'all-lein'. Er bod yr heddlu wedi datblygu gallu arbenigol ar lefel genedlaethol i fynd i'r afael â seiberdroseddu ar y radd uchaf, nid yw gallu lluoedd lleol i fynd i'r afael â throseddau ar-lein mynych sy'n digwydd bob dydd wedi datblygu cymaint. Rhaid i'r heddlu fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r rhyngrwyd yn eu cynnig i ymchwilio i droseddau, boed yn droseddau ar-lein neu all-lein. Rydym yn ceisio sicrhau bod yr heddlu'n meddu ar yr offer, yr hyfforddiant a'r ddealltwriaeth i ymchwilio i seiberdroseddu.

**Er mwyn mynd i'r afael â seiberdroseddu yn well, byddwn yn:**

- darparu cyllid o'r Rhaglen Seiberddiogelwch Genedlaethol i hyfforddi 5,000 o swyddogion yr heddlu a staff rheng flaen mewn technegau ymchwilio seiber, drwy gwrs hyfforddiant pwrpasol am wythnos a mynychu hyfforddiant penodol ar gyfer rôl safle;

- dal i weithio gyda chwilotwyr fel Google a Microsoft i nodi a blocio defnyddwyr sy'n chwilio am luniau o gam-drin plant ar y we;
- gweithio, drwy Dasglu'r Unol Daleithiau/ y Deyrnas Unedig, i nodi a dylunio datrysiadau technegol er mwyn mynd i'r afael yn well â bygythiad camfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein; a
- chynnal uwchgynhadledd ryngwladol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein yn niwedd 2014, gan weithio gyda phartneriaid, yn cynnwys y sector gwirfoddol a chymunedol.

Ym Mawrth 2012 cyhoeddodd y Llywodraeth *Challenge it, Report it, Stop it – Delivering the Government's hate crime action plan.*[8] Mae adroddiad cynnydd a gyhoeddwyd ym Mai 2014 yn darparu trosolwg o'r hyn rydym wedi'i gyflawni o ran mynd i'r afael â throseddau casineb hyd yma. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at feysydd sydd wedi dod i'r amlwg neu sydd wedi dal i esblygu, ac yn nodi beth y byddwn yn ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r materion hynny yn ystod gweddill tymor y Senedd hon. Mae'r Deyrnas Unedig yn cael ei chydnabod am fod yn flaenllaw wrth ymateb i droseddau casineb, ond gellir gwneud mwy bob amser.

**Er mwyn mynd i'r afael â throseddau casineb yn well, byddwn yn:**

- gweithio ar draws y system cyfiawnder troseddol i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â throseddau casineb a bod dioddefwyr yn cael cefnogaeth briodol;
- cytuno ar gamau gweithredu o'r Arweiniad Plismona Cenedlaethol ar droseddau casineb ac Archwiliad o Droseddau casineb Anabledd Gwasanaeth Erlyn y Goron;
- sefydlu gweithgor ar draws y system cyfiawnder troseddol i ddal i weithio gyda'r llysoedd er mwyn gwella gwybodaeth ynglŷn â defnyddio dedfrydu estynedig ar gyfer troseddau casineb; ac
- ystyried argymhellion adolygiad Comisiwn y Gyfraith, *Hate Crime: review of aggravated offences* a chyhoeddi ymateb y Llywodraeth erbyn Rhagfyr 2014.

**Astudiaeth achos – True Vision**

Mae Arolygon Troseddau Cymru a Lloegr 2011/12 a 2012/13 yn awgrymu bod tua 278,000 o droseddau casineb yn cael eu cyflawni bob blwyddyn er bod llai na 44,000 wedi cael eu cofnodi gan heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn 2012/13.

Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb ymhlith dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol, sefydlodd y Rhaglen Droseddau Casineb Drawslywodraethol wefan True Vision yn **www.report-it.org.uk**. Ei phrif bwrpas yw:

- rhoi cyfle i roi gwybod am droseddau casineb ar-lein;
- darparu gwybodaeth i ddioddefwyr a gweithwyr proffesiynol; a
- dosbarthu llyfrgell o adnoddau i gefnogi trefniadau cyflawni lleol.

[8] https://www.gov.uk/government/publications/hate-crime-action-plan-challenge-it-report-it-stop-it

Mae True Vision wedi cael dros 280,000 o ymweliadau ers ei sefydlu yn 2010 ac mae wedi cael 3,640 o adroddiadau gan aelodau o'r cyhoedd yn 2013/14.

Yr allwedd i lwyddiant True Vision yw'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol; yn dilyn hysbysebion wedi'u targedu gwelwyd dros 1% o'r cyfanswm yr amcangyfrifir eu bod yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain yn y DU yn lawrlwytho fideo am droseddau casineb.

# Cyflawni'r cynllun hwn

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae gweithio mewn partneriaeth – yn genedlaethol ac yn lleol – yn allweddol i lwyddiant diwygio'r CJS. Mae popeth rydym wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi'i wneud drwy gydweithio. Mae'r Bwrdd, drwy fynegi ei weledigaeth a'r camau gweithredu sy'n sail iddi, yn darparu arweiniad cenedlaethol. Bydd partneriaethau lleol yn dal i gyflawni'r camau gweithredu hynny er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno mewn ffordd sy'n addas i amgylchiadau lleol.

Mae cyflwyno Comisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi symbylu'r dirwedd blismona a chyfiawnder troseddol leol a darparu arweiniad i bartneriaethau amlasiantaeth. Mae nifer o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu erbyn hyn yn cadeirio'r Partneriaethau Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJP) yn eu hardaloedd heddlu ac mae llawer wedi gwneud trefniadau partneriaeth ffurfiol ag asiantaethau lleol eraill fel awdurdodau lleol a'r gwasanaeth tân er mwyn lleihau troseddu a gwella diogelwch cymunedol.

## Beth rydym wedi'i gyflawni

Rydym wedi:

- lansio **Bwletin Cyfiawnder Troseddol** sy'n cael ei gyhoeddi bob dau fis er mwyn i bartneriaid y CJS allu rhannu datblygiadau cenedlaethol, arferion da a syniadau newydd;
- dechrau cyfres o **sioeau teithiol** ar gyfer partneriaid cenedlaethol a lleol y CJS er mwyn gwella dealltwriaeth gyfunol o'r ffordd orau o ddiwygio'r CJS;
- creu **cymuned ar-lein newydd**, dan ofal y Coleg Plismona, sy'n darparu llwyfan er mwyn i bartneriaid lleol a chenedlaethol y CJS gael rhannu arferion da, ymwneud â datblygu polisi a storio gwybodaeth ddefnyddiol;
- datblygu **model adnoddau cenedlaethol y gall Partneriaethau Cyfiawnder Troseddol Lleol** ei fabwysiadu fel bod gan bob partneriaeth yr adnoddau y mae arni eu hangen i weithredu'n effeithiol; a
- datblygu, gyda phartneriaid y CJS ar lefel leol a chenedlaethol, **set o ddisgwyliadau sylfaenol** sy'n nodi'n glir beth sy'n gwneud partneriaeth leol effeithiol.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i adeiladu cysylltiadau lleol-canolog cynaliadwy, sy'n galluogi partneriaethau i gyfrannu eu syniadau i'r canol, a sicrhau bod arweinwyr cenedlaethol yn deall effaith leol diwygiadau i'r CJS. I'r perwyl hwn, byddwn yn cryfhau sianeli cyfathrebu, gan wneud yn siŵr eu bod yn wirioneddol ddwy ffordd.

**Er mwyn cynorthwyo partneriaethau lleol i arwain a rheoli'n effeithiol byddwn yn:**

- caniatáu i bartneriaethau lleol gael mynediad at y fframwaith perfformiad cenedlaethol, er mwyn eu cynorthwyo'n well i gael gafael ar wybodaeth yn ymwneud â pherfformiad

a defnyddio'r wybodaeth honno;

- gweithio gyda Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol i gynhyrchu canllaw ar sut i adeiladu darlun o'r perfformiad lleol;
- datblygu set glir o ddisgwyliadau ar gyfer partneriaethau lleol;
- bydd y Bwrdd yn gweithio gyda phartneriaethau lleol i ddatblygu set o ddisgwyliadau yn ymwneud â'i ymddygiad ei hun a'i ffordd o weithio, gan sicrhau ei fod yn gweithio mewn ffordd sydd o ddifrif yn cefnogi partneriaethau hyd eithaf ei allu;
- datblygu a thyfu'r gymuned ar-lein (POLKA) yn ofod rhyngweithiol lle gall partneriaid cyfiawnder troseddol lleol a chenedlaethol ymwneud â'i gilydd yn uniongyrchol drwy drafodaethau ar-lein a fforymau agored ac i gadw gwybodaeth ddefnyddiol megis y canllaw perfformiad lleol a'r disgwyliadau sylfaenol; a
- chynnal cynhadledd ym mis Hydref 2014, ar gyfer arweinwyr lleol a chenedlaethol y CJS i drafod mentrau sefydliadol a thrawsasiantaethol.

Bydd y Bwrdd yn dal i sicrhau bod y gwaith o gynllunio adnoddau, gan gynnwys TG, adeiladau a gwasanaethau y mae'r CJS yn eu prynu i mewn, yn fwy cydgysylltiedig. Gwyddom y gall perfformiad gwasanaethau contract mewn un rhan o'r system effeithio ar rannau eraill ohoni. Mae holl asiantaethau'r CJS wedi bod yn gweithio'n galed er mwyn cynyddu effeithlonrwydd; mae'r cyfyngiadau cyllidebol presennol wedi darparu cymhelliant cryf i gydweithio er mwyn cyflawni'r her gyffredin hon. Mae asiantaethau ar draws y CJS yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn adeiladu ar fuddsoddiad blaenorol mewn TG a chwalu'r rhwystrau sy'n atal cydweithio. Mae creu 'llwyfan cyffredin' newydd i integreiddio systemau rheoli achosion Gwasanaeth Erlyn y Goron a GLITEM yn enghraifft o hyn.

**Er mwyn gwella gwasanaethau sy'n cael eu rhoi r gontract neu eu comisiynu gan asiantaethau'r system cyfiawnder troseddol byddwn yn:**

- sefydlu gweithgor amlddisgyblaeth ar gyfer yn system cyfiawnder troseddol er mwyn penderfynu pa rai o'r gwasanaethau sy'n cael eu prynu i mewn i'r system sy'n arbennig o bwysig er mwyn gwella perfformiad a chyflawni ei chanlyniadau;
- ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y system cyfiawnder troseddol er mwyn gwella dealltwriaeth o arferion gweithio o safbwynt y CJS ac o safbwynt y partneriaid ehangach;
- llunio meini prawf ar gyfer asesu pob contract er mwyn nodi cyfleoedd i asiantaethau cyfiawnder troseddol gysylltu â'i gilydd ac arbed costau; a
- datblygu agwedd dryloyw at bob contract posibl er mwyn darparu cyfleoedd newydd i gydweithio.

## Tryloywder

Mae gwneud yn siŵr bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu deall sut mae'r CJS yn gweithio a sut y mae'n perfformio yn rhan greiddiol o'n cynlluniau diwygio ac yn cefnogi'r agenda dryloywder ehangach. Mae'n hanfodol os yw pobl am alw'r system i gyfrif am y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu.

Rydym wedi ymrwymo i wneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy agored er mwyn galluogi trethdalwyr i graffu ar eu CJS leol, a datblygu hyder y cyhoedd yn y system yn ei

chyfanrwydd. Erbyn hyn, gan fod modd gweld achosion o'r Llys Apêl ar y teledu, mae'n bosibl gweld sut y mae'r llysoedd yn gweithio, a gweld cyfiawnder yn cael ei wneud mewn achosion sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Dechreuwyd darlledu ym mis Hydref 2013.

## Beth rydym wedi'i gyflawni

Rydym wedi:

- dechrau **darlledu o'r Llys Apêl** – gan godi gwaharddiad ar gamerâu mewn llysoedd sydd mewn bodolaeth er 1925; a
- **gwneud gwybodaeth am brydlondeb achosion troseddol o'u dechrau i'w diwedd yn fwy hygyrch**. Gall aelodau o'r cyhoedd bellach fynd i *police.uk* er mwyn canfod faint o amser a gymerodd achosion ar gyfartaledd, o'r trosedd i'r canlyniad, yn eu llysoedd lleol.

**Astudiaeth achos – Grŵp Monitro Trais Rhywiol**

Mae'r Grŵp Monitro Trais Rhywiol cenedlaethol yn nodi materion sy'n effeithio ar ymateb asiantaethau cyfiawnder troseddol i drais rhywiol. Mae'r Grŵp wedi cyhoeddi data ar drais rhywiol ar gyfer pob heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae'n bwriadu cyhoeddi data ar drais rhywiol gan bob asiantaeth cyfiawnder troseddol yn haf 2014, mewn un ddogfen hawdd ei defnyddio.

Yn Ionawr 2014 cyhoeddodd y Grŵp ddata yn amlinellu, ar gyfer pob heddlu: nifer y troseddau trais rhywiol a gofnodwyd gan yr heddlu; y canlyniadau, a chyfraddau "dim troseddu" ar gyfer pob ardal. Cynlluniwyd y data hyn er mwyn helpu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r cyhoedd i ddeall sut y mae heddluoedd yn ymdrin â thrais rhywiol. Y nod yw galluogi Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r cyhoedd i ofyn cwestiynau ynglŷn â'r modd yr ymdrinnir â thrais rhywiol yn lleol fel bod asiantaethau'n gwella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i ddioddefwyr a sicrhau bod ymchwiliadau ac erlyniadau'n gadarn ac yn effeithiol.

Pan gyhoeddwyd y set ddata gyntaf yn Ionawr 2014 cododd proffil achosion trais rhywiol mewn heddluoedd lleol o ganlyniad i sylw sylweddol yn y cyfryngau lleol. Bydd cyhoeddiad nesaf y Grŵp, yn ddiweddarach yn yr haf, yn nodi pa effaith y mae'r cyhoeddiad wedi'i gael ar y ffordd y mae'r heddlu'n ymdrin â'r achosion hyn.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

Mae arnom eisiau sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd am y CJS. Mae gwefan *police.uk* yn darparu sylfaen gref, ac er Tachwedd 2013 mae wedi cynnwys data am brydlondeb achosion fel bod y cyhoedd yn gallu gweld faint o amser y mae achosion yn ei gymryd yn eu hardal. Gallwn wneud mwy i'w gwneud hi'n haws i aelodau o'r cyhoedd, a staff cyfiawnder troseddol, gael mynediad at ddata sydd wedi'u cyhoeddi a gwneud synnwyr ohonynt. Byddwn yn newid y ffordd a'r man lle mae data am berfformiad y CJS yn cael ei gyhoeddi ar-lein fel bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu darganfod yn hawdd sut y mae'r system yn perfformio, yn lleol ac yn genedlaethol. Byddwn yn cyflwyno trefniadau newydd erbyn Mawrth 2015.

Mae darlledu o'r Llys Apêl wedi agor y llysoedd a chaniatáu i fwy o bobl weld sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn achosion o bwys. Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bwriad i ddechrau darlledu sylwadau dedfrydu o Lys y Goron a bydd yn gweithio gyda'r farnwriaeth i sicrhau bod hyn yn digwydd.

**Er mwyn cynyddu tryloywder byddwn yn:**

- rhoi ystyriaeth bellach i ddarlledu sylwadau dedfrydu yn Llys y Goron; a
- newid y ffordd a'r man lle mae data am berfformiad y CJS yn cael ei gyhoeddi ar-lein fel bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu darganfod yn hawdd sut y mae'r system yn perfformio, yn lleol ac yn genedlaethol.

## Tegwch

Y llynedd dywedasom ein bod yn canolbwyntio ar degwch yn y CJS er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gallu disgwyl triniaeth deg beth bynnag eu cefndir. Cyfeiriasom at y ffaith fod rhai grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, grwpiau ffydd a grwpiau anabl yn cael eu gor-gynrychioli mewn camau amrywiol o'r CJS, a hefyd at dan-gynrychiolaeth yn y gweithle. Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yr ystadegau diweddaf ar Hil a'r CJS[9] a oedd yn tynnu sylw at rannau o'r system lle mae tystiolaeth o anghydraddoldeb.

Gall rhyngweithio â'r system achosi straen ac mewn rhai achosion gall fod yn brofiad trawmatig, yn enwedig i bobl agored i niwed. Gwyddom nad yw pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn cael eu cynrychioli'n gymesur yn y CJS, fel dioddefwyr nac fel diffynyddion. Erbyn hyn mae dyletswydd ar yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, dan y Cod Dioddefwyr, i asesu dioddefwyr yn gynnar, a chyfeirio unrhyw ddioddefwr sy'n gymwys ar gyfer gwasanaethau estynedig i gael therapi cyn treial, os oes angen. Er mwyn helpu i atal dioddefwyr rhag datblygu problemau iechyd meddwl o ganlyniad i droseddau, gellir trosglwyddo manylion dioddefwyr i wasanaethau sy'n cynnig cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i helpu dioddefwyr i ymdopi a dod atynt eu hunain.

### Beth rydym wedi'i gyflawni

Rydym wedi:

- creu **rhwydwaith cydraddoldeb i'r CJS**, gan ddod ag arweinwyr cydraddoldeb o bob asiantaeth at ei gilydd;
- nodi yn y Cod Dioddefwyr newydd ei bod yn ofynnol i unrhyw un sydd â **phroblem iechyd meddwl gael cynnig cefnogaeth estynedig** yn ystod pob cam o'r broses cyfiawnder troseddol;
- creu cyfleoedd i staff talentog o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) ddatblygu a symud ymlaen yn yr heddlu drwy lansio **Rhaglen Gynnydd BAME 2018**.

### Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

Rydym wedi cynllunio ystod o ddiwygiadau a fydd, gyda'i gilydd, yn gwneud y system cyfiawnder troseddol yn decach ac yn sicrhau triniaeth fwy cyfartal. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys datblygu canllawiau newydd mewn fformat Hawdd eu Darllen i wneud y CJS yn lle llai dryslyd i'w defnyddwyr, gan hyrwyddo camau cadarnhaol i wneud heddluoedd

[9] Statistics on Race and the Criminal Justice System 2012:
https://www.gov.uk/government/publications/statistics-on-race-and-the-criminal-justice-system-2012

yn fwy cynrychioladol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a chynorthwyo partneriaethau lleol i sicrhau'n well bod eu gwasanaethau'n trin pawb yn gyfartal.

Mae arnom eisiau gwybod mwy ynglŷn â sut y mae unigolion o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn rhyngweithio â'r system a beth mae hyn yn ei olygu iddynt hwy ac i'w dioddefwyr. Byddwn yn dechrau rhoi gwasanaethau cyswllt a dargyfeirio newydd ar gyfer pobl ifanc ac oedolion ar waith i ganfod, asesu a chyfeirio troseddwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl, anabledd dysgu, problemau camddefnyddio sylweddau neu faterion eraill sy'n eu gwneud yn agored i niwed at wasanaethau cefnogi neu drin er mwyn iddynt gael triniaeth.

**Er mwyn cynyddu tegwch yn y CJS byddwn yn:**

- datblygu, profi a chyflwyno canllawiau Hawdd eu Darllen i wneud y CJS yn haws ei deall;
- gweithio gyda Phartneriaethau Cyfiawnder Troseddol Lleol i adolygu cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â chydraddoldeb yn lleol a darparu cefnogaeth;
- edrych ar brofiadau carcharorion o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) er mwyn deall eu proses o wneud penderfyniadau ar adegau allweddol a nodi ffyrdd o wella'u hymgysylltiad â'r CJS, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn â phleon euog priodol;
- datblygu a chyhoeddi canllawiau ar gyfer pob heddlu er mwyn hyrwyddo ac annog mwy o ddefnydd o gamau cadarnhaol wrth recriwtio, fel y bo'n briodol, er mwyn cynyddu amrywiaeth yn y gweithle; a
- chyflwyno gwasanaethau cyswllt a dargyfeirio newydd ar gyfer pobl ifanc ac oedolion i 22% o boblogaeth Lloegr erbyn 2015/16.